PWYLLGOR CRAFFU’R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD IAU, 5 HYDREF 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Howells(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ebrahim, Gordon, Gavin Hill-John, Parkhill, Robson, Sattar a/ac Stubbs |

14 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

15 : DATGAN BUDDIANNAU

Derbyniwyd datganiadau o fuddiant gan y Cynghorwyr Robson, Stubbs a Hill-John, a ddatganodd buddiannau personol yn Eitem Agenda 5 fel Cyfarwyddwyr Anweithredol o Fws Caerdydd.

16 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgorau Craffu'r Amgylchedd a'r Economi a Diwylliant a gynhaliwyd ar 13 Medi a chyfarfod y Pwyllgor Craffu’r Economi a Diwylliant a gynhaliwyd ar 14 Medi yn gofnod gwir ac fe’u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

17 : ARENA DAN DO AML-BWRPAS - DIWEDDARIAD

Gwahoddwyd y Cadeirydd y Cynghorydd Russell Goodway, yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu a Neil Hanratty, Cyfarwyddwr yr Economi a Datblygu i’r cyfarfod.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad ar yr Arena Dan Do Amlbwrpas ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Gofynnodd yr Aelodau ynghylch amser cwblhau amcangyfrifedig project megis hwn; dywedodd swyddogion y byddai’n cymryd 18 mis o nawr ac yna 2 flynedd bellach o adeiladu.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at oblygiadau traffig a gofynnon nhw pa gynlluniau sydd wedi'u paratoi i hwyluso symud pobl i leoliadau posibl, sydd i gyd i'r De o'r rheilffordd. Dywedodd swyddogion fod cael y safleoedd i'r De o'r rheilffordd yn fwy i wneud â faint y safleoedd eu hunain; mae angen i'r safleoedd posibl fod rhwng 8 a 10 erw ac yn agos at Ganol y Ddinas.
  Bydd cynllunio trafnidiaeth yn brif ystyriaeth yn ystod yr ymarfer dethol safle, mae angen gallu cerdded i'r safle o'r orsaf rheilffordd. Byddai'r safle a ddetholir yn un sy'n helpu i ddarparu'r seilwaith sydd ei hangen ar y Ddinas, h.y. tram i'r Bae a gwneud mwy o waith tuag at gwblhau Ffordd Gyswllt Ddwyreiniol y Bae.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at gyfraniad y Fargen Ddinesig a gofynnon nhw pam byddai Awdurdodau lleol eraill yn cyfrannu at rywbeth yn cael ei adeiladu yng Nghaerdydd. Esboniodd swyddogion fod gan Gaerdydd boblogaeth o 360k o bobl yn unig, felly byddai lleoliad fel hwn o fudd i'r rhanbarth gyfan.

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad o ba bryd yr anogwyd y project yn wreiddiol a chan bwy. Esboniodd yr Aelod Cabinet fod gweinyddiaethau olynol wedi bod eisiau'r project, ers 1993 pan ysgrifennwyd adroddiad Caerdydd 2020. Nododd yr Adroddiad gydrannau sy'n galluogi Dinas i weithio dros ei hun; un o'r cydrannau hyn oedd arena digwyddiadau. Ychwanegodd y bu pryderon gan bobl am Stadiwm Principality ond mae wedi rhoi i Gaerdydd broffil byd-eang na allai byth fod wedi'i brynu. Byddai arena digwyddiadau'n gwneud yr un peth a chreu mwy o sylw byd-eang ac roedd ffydd ganddo y byddai'r rhanbarth yn deall pwysigrwydd project o'r fath ac mae'n gweld y manteision y byddai'n creu i'r rhanbarth gyfan, nid Caerdydd yn unig.

- Deallodd yr Aelodau bwysigrwydd y project ond tynnon sylw at bryderon gan drigolion bod gwella'r system drafnidiaeth gyhoeddus yn fwy brys yn eu barn hwy. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod system drafnidiaeth gyhoeddus well yn dibynnu ar niferoedd teithwyr; dim ond 360k o drigolion sydd gan Gaerdydd, nad yw'n ddigon o bobl ac er mwyn creu achos busnes byddai angen mwy o deithwyr.

- Croesawodd yr Aelodau y safleoedd oedd yn cael eu hystyried, nodon nhw fod Caerdydd, fel Dinas, yn hen gyfarwydd â chynnal digwyddiadau mawr ac ymdopi â'r gwaith o gludo pobl i mewn i'r ddinas ac oddi allan. Croesawodd yr Aelodau yr amserlenni mynegiadol ond gofynnon nhw beth sydd wedi digwydd ers 2012/13 gan nad yw'n ymddangos bod llawer wedi symud yn ei flaen. Dywedodd yr Aelod Cabinet y bu angen amser i ddeall yr anghenion, a beth sy'n digwydd mewn dinasoedd eraill. Gofynnodd yr Aelodau pa fuddion eraill y byddai'r arena yn dod â nhw i'r Ddinas a dywedwyd wrthynt fod y nifer mwy o ymwelwyr â'r Ddinas yn ddod â phob math o gyfleoedd ag ef h.y. manwerthu a gwestyau.

- Ymholodd yr Aelodau, parthed digwyddiadau chwaraeon, a fyddai hyn ar gyfer digwyddiadau ar raddfa Cynghrair y Pencampwyr yn unig neu a fyddai cyfleoedd i glybiau lleol ei ddefnyddio hefyd. Dywedodd swyddogion y byddai ar gyfer digwyddiadau rhyngwladol mawr sy'n denu gwylwyr sy'n talu; mae Uchelgais Prifddinas yn nodi cyfleoedd ledled y Ddinas ar gyfer clybiau chwaraeon lleol; roedd sgyrsiau ar y gweill gyda Gerddi Sophia, Stadiwm

Lecwydd, Cwrs Rasys Treláі ac ati ar gyfer mynediad ar gyfer clybiau chwaraeon brodorol dan broject ar wahân.

- Gan gyfeirio at y dyluniad a ffafrir ar gyfer yr arena sef Uwch Gromen Hybrid, gofynnodd yr Aelodau a oes gan unrhyw wledydd eraill un o'r rhain. Esboniodd swyddogion fod y penseiri'n arweinwyr byd yn y math hwn o seilwaith, roedd y dyluniad hwn yn gydsyniad newydd y mae'r pensaer wedi'i ddatblygu i gael defnydd ohono ar y nifer uchaf posibl o ddiwrnodau; nid oedd enghraifft arall ohono. Ychwanegodd fod y pensaer wrthi'n gweithio ar stadiwm newydd Barcelona.

- Nododd yr Aelodau y cynigiwyd safle yr Arena Motorpoint yn flaenorol fel opsiwn safle ond nid ymddangosodd yn yr opsiynau safle presennol. Esboniodd swyddogion, ers i Admiral gael ei leoli yn agos at y safle, fod yr ardal bellach yn rhy fach.

- Gofynnodd yr Aelodau pa effaith y byddai'r arena yn ei gael ar leoliadau eraill yn y Ddinas. Esboniodd swyddogion eu bod wrthi'n datblygu achos busnes a fyddai'n edrych ar effeithiau; byddai Arena Motorpoint yn dioddef ac efallai'n cau; ond mae'r Stadiwm yn cynnal digwyddiadau gwahanol sydd ar raddfa fwy o lawer na'r Arena.

- Parthed cyllid, gofynnod yr Aelodau beth fyddai'n digwydd pe na bai'r Fargen Ddinesig yn gwneud cyfraniad. Dywedodd yr Aelod Cabinet y deuid o hyd iddo rywle arall, mae gan Gaerdydd agenda clir iawn o'r hyn y mae am ei gyflawni, felly nid yw wedi bod yn anodd cael pobl i gyflawni'r pethau hyn ar gyfer Caerdydd; mae cyfleoedd busnes gyda'r sector preifat fel gyda'r holl ddatblygiadau mawr mewn blynyddoedd diweddar sydd wedi'u darparu'n bennaf gan y sector preifat.

- Gofynnodd yr Aelodau a ystyriwyd cyfleoedd nawdd. Dywedodd swyddogion eu bod nhw wedi, mae noddi yn un ystyriaeth yn y brydles weithredwr, neu a yw'n cael ei wneud ar wahân; byddai hyn yn cael ei ystyried yn yr achos busnes terfynol pan gaiff ei gyflwyno.

PENDERFYNWYD y câi barn y Pwyllgor ei thrafod yn ystod y cam o'r cyfarfod i drafod y ffordd ymlaen ac y câi llythyr ei anfon at yr Aelod Cabinet maes o law.

## 18 : DYSGU OEDOLION YN Y GYMUNED - NEWIDIADAU I ARIANNU

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sarah Merry, yr Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau; Isabelle Bignall, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Cwsmeriaid a Chymunedau a John Agnew, Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid Corfforaethol i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad a dywedodd fod ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i oedi tan Wanwyn 2018 i wneud penderfyniad cytbwys a gaiff ei weithredu yn 2019/20. Bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar sut y caiff y gwasanaeth ei ariannu yn y dyfodol.

Mae gwasanaeth ACL Cyngor Caerdydd wedi gwneud gwelliannau sylweddol fel y adlewyrchwyd yn ei gyfradd lwyddiant dros yr ychydig o flynyddoedd diwethaf sydd wedi cynyddu bob blwyddyn o 61% yn 2012/13 i 94% yn 2015/16. Dyma deyrnged i'r tîm Dysgu Cymunedol i Oedolion rhagorol sydd wedi cydweithio mor effeithiol gydag ymrwymiad llawn i gyflawni'r canlyniadau a deilliannau gorau posibl i ddysgwyr.

Cafodd yr Aelod Cabinet y pleser yn ddiweddar o gael ei wahodd i Ganolfan Ddysgu i Oedolion Severn Road i weld SHEP (Rhaglen Gyfoethogi Gwyliau'r Ysgol) sy'n cynnig cyrsiau blasu nas achredir i rieni y mae eu plant yn mynychu SHEP. Y bwriad yw cynyddu'r galw gan rieni am ragor o gyrsiau mewn lleoliadau ysgol.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

Datganodd y Cynghorwyr Robson, Stubbs a Hill-John fuddiannau personol ar yr adeg hon fel Cyfarwyddwyr Anweithredol o Fws Caerdydd.

- Nododd yr Aelodau y toriad o 37% y soniwyd amdano yn y cyflwyniad, ac er gwaethaf hyn, roedd y gwasanaeth yn gallu gwella ei effeithiolrwydd. Gofynnodd yr Aelodau a allai'r gwasanaeth wella ei effeithiolrwydd gyda thoriadau pellach. Dywedodd swyddogion yr oedd un rhaglen yn flaenorol a gwmpasodd y rhaglen Ddysgu ar gyfer Gwaith a ariannwyd trwy grant a'r cyrsiau Dysgu ar gyfer Gwaith y talwyd amdanynt. Fe'u cyfunwyd a theimlodd Llywodraeth Cymru na all y gwasanaeth ddangos bod y grant yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyrsiau i mewn i waith a'u tebyg. Pan fu i'r gwasanaeth doriad o 37%, rhannodd y ddwy raglen yn llwyr a rhyddhaodd nifer o bwyntiau cyflawni a defnyddiodd ysgolion, grwpiau cymunedol ac ati. Roedd y gostyngiad yn ymwneud â symleiddio'r gwasanaeth a'i gynnig mewn modd mwy effeithiol felly roedd lle wedi bod i ymgorffori'r toriad blaenorol mewn cyllid.

- Nododd yr Aelodau fod nifer enfawr o bobl oedd wedi dilyn y cyrsiau dysgu achrededig. Roedd pryderon gan yr Aelodau fod Cyrsiau Mynediad a Dysgu ar gyfer Bywyd wedi lleihau ers i goleg Caerdydd a'r Fro ddechrau eu gweinyddu a bod gostyngiad enfawr wedi'i weld yn nifer y bobl yn gwneud y cyrsiau. Roedd pryderon gan yr Aelodau, gyda'r Rhaglen Gymunedau'r Gyntaf yn dod i ben yn 2018, y byddai blwch y byddai angen ei lenwi. Dywedodd swyddogion fod Caerdydd yn rhan o bartneriaeth coleg Caerdydd a'r Fro ond nid yw'r Cyngor yn rhedeg darpariaeth Caerdydd gan fod ganddo ei ddarpariaeth ei hun; yn ystod adeg y toriad 37% ac roedd y cyrsiau'n cael eu rhannu, nid oedd Caerdydd yn gallu cynnig cymaint o gyrsiau blasu fel o'r blaen, a heb fodloni'r rhif a nodwyd yn y Polisi, roedd y cyrsiau hyn bellach yn cael eu targedu'n benodol er mwyn cael y rhif gofynnol. Bydd papur yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod craffu yn y dyfodol ar y Porth Cyflogadwyedd, a fyddai'n mynd i'r afael â darpariaeth ACL Cymunedau'n Gyntaf.

- Gofynnodd yr Aelodau sut y gallai Caerdydd gyflwyno achos i Lywodraeth Cymru mai peidio â newid neu fod mewn Partneriaethau Dysgu i Oedolion yn unig fyddai'r opsiynau realistig. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod tuedd eithaf pryderus ar adegau ga Gaerdydd i ganoli pethau pan fo rôl bwysig iawn ar gyfer Llywodraeth leol a'r berthynas sydd ganddi gyda chymunedau lleol, ac y byddai'n gwrthwynebu opsiynau 3 a 4; ac eithrio'r effaith ar ariannu

awdurdodau lleol a leolir yn delfrydol i gael gwybod am yr hyn y mae ei angen mewn rhannau o'r Ddinas.

- Gofynnodd yr Aelodau pa asesiad sydd wedi’i wneud am alwon am gyrsiau parodrwydd ariannol wrth ddisgwyl Credyd Cynhwysol. Esboniodd swyddogion y cynhwysir hyn yn y Porth Cyflogadwyedd sy'n cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor y mis nesaf; yn ogystal â hyn bydd rhan o'r Llyfrgell Ganolog yn cael ei hailddatblygu i alluogi pobl i gael help mewn perthynas â Chredyd Cynhwysol ac ar gyfer mynediad at gyfrifiaduron, roedd y Cyngor yn gweithio’n agos gyda Gwasanaethau i Mewn i Waith ar hyn.

- Gan gyfeirio at opsiynau 3 a 4, gofynnodd yr Aelodau beth fyddai'r rhain yn golygu o bersbectif defnyddiwr gwasanaeth. Dywedodd swyddogion y byddai’r opsiynau hyn yn debyg i gyllid grant ychwanegol, byddai angen i ddefnyddwyr brofi’r angen. Byddai’n anos profi'r angen am gyrsiau allgau cymdeithasol ac ati. Byddai ceisiadau ar gyfer blaenoriaethau allweddol.

  Anogodd yr Aelodau fod y canolbwynt yn parhau i fod ar gyrsiau dychwelyd i’r gwaith gan eu bod yn arwain at swyddi. Dywedodd swyddogion mai dyma’n union y mae’r Porth Cyflogadwyedd yn ei wneud. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod astudiaethau achos sy’n dangos gwerth cyrsiau meddal hefyd, sydd hefyd â manteision economaidd mawr.

- Gofynnodd yr Aelodau sut mae’r Cyngor yn targedu ac yn cefnogi pobl sydd â diffyg sgiliau iaith Saesneg. Esboniodd swyddogion fod swm enfawr o waith ei wneud ar barodrwydd digidol y Ddinas, gyda sesiynau'n cael eu cynnal ym mhob Hyb. Teilwrir cyrsiau i anghenion pobl gan gynnwys rhwystrau iaith. Mae gweithwyr yn y Hyb Canolog a all roi help penodol ar Gredyd Cynhwysol, Diwygio Lles ac ati.

- Credodd yr Aelodau, er bod y rhaglen yn newydd, y gellir defnyddio ysgolion i gynnig yr help hwn hefyd, gan nad oes Hybiau ym mhob ardal ledled y Ddinas.

- Gofynnodd yr Aelodau am fwy o wybodaeth am y fformiwla ar gyfer Amddifadu/Prinder. Esboniodd swyddogion y cafodd swyddogion o awdurdodau lleol eu synnu mewn gweithdy diweddar gyda Llywodraeth Cymru o’r cynigion o gwmpas y bwrdd. Roedd pwynt allweddol ynghylch prinder, mae darparwyr ledled Cymru’n siarad am lawer o flynyddoedd am y fformiwla wedi sefydlu nad ydynt yn cytuno â hi mewn egwyddor, yn dweud eu bod ar eu colled o ganlyniad i'r ffaith bod cyllid grant yn cael ei rannu sail beth y gallant ei ddarparu. O bersbectif Caerdydd, roedd pryderon gan swyddogion, os defnyddir y fformiwla brinder, nad oes seilwaith mewn gwirionedd mewn llawer o’r ardaloedd hynny hyd yn oed pe baent yn derbyn cynnydd sylweddol mewn cyllid ni fyddent yn gallu darparu dim byd.

- Gofynnodd yr aelodau a fyddai unrhyw gyfle yn ystod yr ymgynghoriad i awgrymu fformiwla gwahanol ac a oedd gan swyddogion ddewis fformiwla yr oeddent yn ystyried ei bod yn deg. Dywedodd swyddogion eu bod wedi edrych ar nifer o fformiwlâu ond cydnabod wnaethon nhw na allai fod unrhyw fantais ar yr adeg hon i herio’r fformiwlâu a oedd yn cael eu hawgrymu. Mae llawer o waith i wneud o hyd ar ôl yr ymgynghoriad gyda’r darparwyr o ran sut

y maent yn symud ymlaen a gobeithio adlewyrchir ar ganlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at y trydydd dewis sef y llwybr comisiynu ac roedden nhw o’r farn bod hyn yn dibynnu yn y bôn ar bwy allai lenwi’r ffurflenni gorau ac felly roedd pryderon ganddynt am yr opsiwn hwn hefyd.

- Gofynnodd yr Aelodau a yw asesiad wedi’i wneud ar yr ôl-effeithiau ar y gwasanaeth yng Nghaerdydd. Dywedodd swyddogion fod asesiad wedi’i wneud; maent yn derbyn y byddai toriad, ni waeth beth fo sy’n digwydd, a maintioli’r toriad oedd y mater allweddol. Lleihad yn niferoedd staff a chyrsiau fyddai effaith uniongyrchol y toriadau; mae swyddogion yn chwilio am ffyrdd y gallant helpu a lliniaru’r gostyngiadau hyn, gan weithio gyda Gwasanaethau I Mewn I Waith i sicrhau grantiau eraill ac ati.

PENDERFYNWYD y câi barn y Pwyllgor ei thrafod yn ystod y cam o'r cyfarfod o drafod y ffordd ymlaen ac y câi llythyr ei anfon at yr Aelod Cabinet maes o law.

19 : ADRODDIAD GOHEBIAETH

Rhoddwyd i’r Aelodau’r wybodaeth ddiweddaraf ar yr ohebiaeth a anfonwyd a’r ymatebion a ddaeth i law ers dechrau’r flwyddyn ariannol;

- *Ymatebion a Dderbyniwyd* – gan y Cynghorydd Goodway i lythyr Cadeirydd, a anfonwyd 19 Gorffennaf 2017, yn dilyn craffu cyn penderfyniad at Ariannu'r Gyfnewidfa Orsaf Fysus yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 18 Gorffennaf 2017.

- *Dim angen ymateb* – i lythyr y Cadeirydd, a anfonwyd ar 14 Medi 2017, ar ôl Galw i Mewn Penderfyniad y Cabinet parthed Ariannu'r Gyfnewidfa Orsaf Fysus, a gynhaliwyd ar 13 Medi 2017

- *Aros am Benderfyniad* – gan y Cynghorydd Thorne i lythyr y Cadeirydd, a anfonwyd ar 15 Medi 2017, ar ôl craffu Gwasanaethau Cyflogaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 14 Medi 2017.

PENDERFYNWYD nodi’r adroddiad.

20 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynllunnir cyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant ar 9 Tachwedd 2017 am 4.30pm.